

- Nid oes fawr o wahaniaeth rhwng canran presenoldeb bechgyn a merched.

Presenoldeb 2017-8	
Bechgyn	Merched
96.82%	96.29%

ABSENOLDEBAU

- Mae canran absenoldebau yn gymharol isel ac ar gyfartaledd yn llai na 4.3% ers tair blynedd.

2013-14	2014-15	2015-16	2016-7	2017-8
4.2%	4.17%	4.8%	5%	3.5%

- Mae'r ganran absenoldebau awdurdodedig ar gyfer 2017-8 yn 2.9%. Mae'r absenoldebau hyn yn cynnwys salwch, apwyntiadau meddygol a gwyliau gyda chaniatâd.
- Mae'r ganran absenoldebau anawdurdodedig ar gyfer 2017-8 yn 0.6%.
- Mae'r ganran yma yn isel iawn ac yn cyfeirio yn bennaf at ddyddiau unigol o absenoldeb lle nad oes rheswm wedi ei nodi gan y rhiant.

Absenoldebau 2017-8	Awdurdodedig	Anawdurdodedig
3.5%	2.9 %	0.6%

ABSENOLDEBAU GWYLIAU YN YSTOD TYMOR YSGOL

- Gweithredir polisi absenoldebau oherwydd gwyliau teulu yn dda. Mae rhieni yn dilyn y canllawiau a osodir a gwneir ceisiadau ymlaen llaw i'r Pennaeth
- Caniateir hyd at 10 diwrnod o wyliau yn ystod blwyddyn ysgol yn unol â'r polisi
- Yn ystod 2017-8 roedd y categorïau absenoldebau awdurdodedig o 2.9 % fel a ganlyn:-

Salwch	Meddygol	Gwyliau	Arall
1.86%	0.32%	0.81%	0.51%

PRYDLONDEB- Mae prydlondeb disgyblion yn Rhagorol. Mae'r rhieni yn sicrhau bod eu plant ar dir yr ysgol cyn y gloch 9:00. Mae sefydlu'r Clwb Brecwast wedi cyfrannu at hyn gan ein bod hefyd yn derbyn plant Meithrin i'r Clwb brecwast.

- Pennaeth i atgoffa staff am lenwi presenoldeb y prynhawn cyfarfod staff 18-9-18 ac yn dymhorol.
- Os yw rhiant yn ffonio parthed absenoldeb bydd y Pennaeth neu y sawl sy'n derbyn yr alwad yn ysgrifennu ar post-it yr absenoldeb hwnnw. Bydd dau o Fl 2 yn mynd o gwmpas y dosbarthiadau gyd chlip fwrdd i hysbysu'r athrawon o'r absenoldeb a bydd yr athraon yn nodi ar y daflen os oes cadarnhad am absenoldeb a'i pheidio. Dychwelir y gofrestr i law y Pennaeth erbyn 9.30 am ac yna ffonio rhieni os nad oes esboniad am absenoldeb.

Pennaeth Tymor yr Hydref 2017
Gwanwyn 2018
Haf 2018

GWEITHDREFNAU

- Mae gweithdrefnau da iawn mewn lle ar gyfer casglu a monitro presenoldeb a phrydlondeb disgyblion.
- Mae pob athro a chymorthyddion y dosbarthiadau CS a Chymhorthyddion ADY y dosbarthiadau wedi eu hyfforddi ar sut i ddefnyddio'r system SIMS. Mae SIMS ar gael ym mhob dosbarth.
- Mae canllaw a chopi caled ar gael ym mhob dosbarth ar gyfer athrawon llanw os nad ydynt yn gyfarwydd â'r weithdrefn SIMMS.
- Disgwylir i staff gofrestru dwywaith y dydd a hynny o fewn terfynau amser a nodir yn y polisi sef 9.30 y bore a 1.30 y prynhawn.
- Cedwir llythyrau absenoldeb mewn ffeil ym mhob dosbarth
- Cedwir ceisiadau am wyliau yn ystod tymor yr ysgol yn y dosbarthiadau ar ol i'r Pennaeth eu cadarnhau.
- Bydd presenoldeb/prydlondeb disgyblion yn cael ei fonitro gan y Cymhorydd â Chyfrifoldeb dros Gofrestrau yn wythnosol ar fore ddydd Llun a Gwener.

CRYFDERAU

- Lefel Presenoldeb a Phrydlondeb Rhagorol ers 5 mlynedd.
- Gweithdrefnau cofnodi Presenoldeb a gweithredu diwrnod cyntaf o absenoldebau yn effeithiol.
- Cydweithio effeithiol â'r Swyddog Lles Mrs Linda Jones

MEYSYDD I'W DATBLYGU

- Gweithredu'r drefn Genedlaethol newydd mewn perthynas a rhybuddion cosb drwy dderbyn a danfon y rhybuddion i Rieni y dilyn y cyfarfod hwn gyda'r Swyddog Lles
- Trafod gyda'r Cyngor Ysgol pa wobrwyon ne freintiau a ddylid eu rhoi i ddisgyblion am bresenoldeb llawn tymhorol a phresenoldeb llawn dros flwyddyn .

- Atgoffa rhieni o Bolisi Sirol Danfon y Rhybuddion yn fuan ar ol y cyfarfod hwn.
- Tymor yr Hydref 2018